6 Medi 2023

Annwyl

**ATISN 18833 - Rheoli Cynllunio ar gyfer Tai Haf a Gwyliau**

**Y cais**

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 15 Awst. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

Gofynnoch chi a wnaeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â’r newidiadau i’r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd a’r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ynghylch ail gartrefi a chartrefi gwyliau, ofyn barn Cwnsler neu gyngor cyfreithiol arall ynghylch yr angen am unrhyw newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol (mewn perthynas â’r diffiniadau o ‘ddatblygiad’ a ‘newid sylweddol mewn defnydd’ o dan adran 55 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) i sicrhau y gellid diffinio newidiadau defnydd rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd a gynigir fel ‘newid arwyddocaol mewn defnydd’ y bydd angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer. Gofynnoch chi hefyd am gael gweld y cyngor hwnnw.

**Ein hymateb**

Gallaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gyngor o’r fath.

Rwyf wedi penderfynu bod yr wybodaeth yn esempt rhag y gofynion datgelu o dan adran(nau) 42 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac felly rhaid ei chadw'n ôl. Mae'r rhesymau dros weithredu'r esemptiadau hyn wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad A y llythyr hwn.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner’s Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir,

**Atodiad A**

**Esemptiadau**

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth/y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn rhoi'r hawl i unrhyw un ofyn i awdurdod cyhoeddus drefnu bod gwybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael i'r cyhoedd yn ehangach. Gan fod rhyddhau'r wybodaeth yn golygu ei bod ar gael i'r byd, nid dim ond i'r sawl a wnaeth y cais, mae angen i awdurdodau cyhoeddus ystyried effeithiau'r cam o drefnu bod yr wybodaeth ar gael yn rhwydd i bawb. Mae'r ystyriaethau ehangach hynny yn drech nag unrhyw fuddiant personol sydd gan y sawl sy'n gwneud y cais, o ran cael gweld yr wybodaeth.

Rwyf wedi penderfynu cadw'r wybodaeth ganlynol yn ôl:

Y cyngor a ddaeth i law.

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r rhesymau dros weithredu adran(nau) 42 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**Gweithredu adran 42 (Braint Broffesiynol Gyfreithiol) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**

Dywed Adran 42:

> (1) Fod gwybodaeth y gellid hawlio braint broffesiynol gyfreithiol arni, neu yn yr Alban, cyfrinachedd cyfathrebiad arni, mewn achos cyfreithiol yn wybodaeth esempt.
>
> (2) Na fydd dyletswydd i gadarnhau na gwadu os byddai neu i ba raddau y byddai, yn cydymffurfio ag adran 1(1)(a) yn golygu datgelu unrhyw wybodaeth (p'un a yw wedi'i chofnodi neu beidio) y gellid hawlio braint broffesiynol gyfreithiol arni mewn achos cyfreithiol

Mae Braint Broffesiynol Gyfreithiol yn cynnwys y cyfathrebu rhwng cyfreithwyr a'u cleientiaid at ddiben cael cyngor cyfreithiol, neu ddogfennau a grëir gan neu ar gyfer cyfreithwyr a'u prif ddiben fyddai ymgyfreitha. Yr wybodaeth dan sylw fan yma oedd y cyngor a ddarparwyd gan Gwnsler a chredwn fod Braint Broffesiynol Gyfreithiol yn perthyn i'r wybodaeth hon.

Yn ôl ICO, mae Cyngor yn Gyngor braint pan nad oes ymgyfreithia'n mynd rhagddo a lle nad oes bwriad ymgyfreitha. Mae'n cwmpasu cyfathrebiadau cyfrinachol rhwng y cleient a'r cyfreithiwr a wneir at brif ddiben ceisio neu roi cyngor cyfreithiol.

Bydd y cynghorydd cyfreithiol wedi rhoi'r cyngor mewn cyd-destun cyfreithiol: er enghraifft am hawliau cyfreithiol, rhwymedigaethau, ymrwymiadau neu remedïau. Ni fydd cyngor a roddir gan gyfreithiwr am faterion ariannol neu fater gweithredol neu strategol yn debygol o gael ei ystyried yn gyngor braint, oni bai ei fod hefyd yn ymdrin â materion cyfreithiol fel cyngor ar remedïau cyfreithiol i broblem.

Mae amodau i'r esemptiad adran 42, sy'n golygu y cynhelir prawf budd cyhoeddus arno. Nodwyd bod budd i'r cyhoedd pe bai awdurdodau cyhoeddus yn cael gweld cyngor a elwodd ar fraint broffesiynol gyfreithiol yn Bellamy v y Comisiwn Gwybodaeth a'r DTI [EA/2005/0023]. Yn y tribiwnlys, dywedwyd am Fraint Broffesiynol Gyfreithiol:

*"there is a strong element of public interest inbuilt into the privilege itself. At least equally strong countervailing considerations would need to be adduced to override that inbuilt interest….it is important that public authorities be allowed to conduct a free exchange of views as to their legal rights and obligations with those advising them without fear of intrusion, save in the most clear case…'.*

Barn gadarn Llywodraeth Cymru yw ei bod hi'n bwysig iawn cadw braint broffesiynol gyfreithiol a heb resymau yr un mor gryf yn ei herbyn, y byddai unrhyw ymgais i danseilio egwyddor braint broffesiynol gyfreithiol yn arwain at ddrwg sylweddol.

Mae angen i gynghorwyr cyfreithiol allu rhoi darlun llawn i'w cleientiaid, a gallai cyngor gynnwys dadleuon o blaid casgliadau terfynol neu wrth-ddadleuon perthnasol. Dyna'r pwrpas sy'n sail i egwyddor braint broffesiynol gyfreithiol.

Rhan o natur barn gyfreithiol yw ei bod yn aml yn cyflwyno'r dadleuon yn erbyn ac o blaid barn benodol. Os bydd derbynnydd neu roddwr barn gyfreithiol yn credu bod y cyngor cyfreithiol yn debygol o gael ei gyhoeddi, yn enwedig mor fuan ar ôl gofyn amdano ac mewn amgylcheddol gwleidyddol cymhleth, yna mae'n annhebygol y rhoddid cyngor cynhwysfawr nac y gofynnir amdano. Byddai hynny'n debygol o arwain at ddrwg sylweddol i ansawdd y penderfyniadau a wneir gan na fyddent yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael. Byddai hefyd yn tanseilio gallu cynghorwyr cyfreithiol a'u cleientiaid i ddibynnu â hyder ar yr amddiffyniad a roddir gan egwyddor braint broffesiynol gyfreithiol.

At hynny, mae posibilrwydd mawr y gallai datgelu cyngor cyfreithiol wanhau gallu'r Llywodraeth i amddiffyn ei buddiannau cyfreithiol – yn uniongyrchol trwy ei gorfodi i ddatgelu mewn ffordd annheg ei safiad cyfreithiol i herio, ac yn anuniongyrchol trwy leihau'r sicrwydd y byddai'r cyngor wedi cael ei ystyried yn llawn a'i gyflwyno heb ffafriaeth nag ofn. Am y rhesymau hyn, yn ein barn ni, mae diogelu budd y cyhoedd trwy gadw'r esemptiad yn drech na'r budd y câi'r cyhoedd o ddatgelu gwybodaeth sy'n destun braint broffesiynol gyfreithiol yn y datganiad hwn.

Am y rhesymau hyn, o roi popeth yn fantol, budd y cyhoedd yw peidio â datgelu'r cyngor.